OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1514

## Rheoliadau Asiantaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2005

## RHAN 2

## DARPARWYR COFRESTREDIG, UNIGOLION CYFRIFOL A RHEOLWYR

### Penodi rheolwr

**6.**—(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig benodi unigolyn (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel 'y rheolwr cofrestredig') i reoli'r asiantaeth.

(2) Rhaid i'r darparydd cofrestredig hysbysu'r awdurdod cofrestru ar unwaith o'r canlynol —

(a) enw unrhyw berson a benodir yn unol â'r rheoliad hwn; a

(b) y dyddiad y daw'r penodiad yn effeithiol.